

Enw'r Ymgeisydd	Rhif y Ganolfan	Rhif yr Ymgeisydd

CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU

TYSTYSGRIF LEFEL MYNEDIAD



WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE

ENTRY LEVEL CERTIFICATE

736/51

## Tystysgrif Lefel Mynediad

### MATHEMATEG

### PAPUR TERFYNOL

A.M. DYDD MAWRTH, 28 Mawrth 2006

(1 Awr 15 munud)

#### DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

Yn ogystal â'r papur arholiad hwn, bydd angen:

- cyfrifiannell;
- pren mesur.

#### CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Ysgrifennwch eich enw, rhif y ganolfan a'ch rhif ymgeisydd yn y blychau ar ben y dudalen hon.

Atebwch **bob** cwestiwn yn y lleoedd gwag a ddarperir yn y llyfryn hwn.

Rhaid dangos pob gwaith cyfrifo.


I'r Arholwr yn unig	
Tudalennau	Cyfanswm marciau'r tudalennau dwbl
2, 3	
4, 5	
6, 7	
8, 9	
10, 11	
12, 13	
14, 15	
16, 17	
18, 19	
20, 21	
22, 23	
24	
<b>CYFANSWM</b>	

#### GWYBODAETH I YMGEISWYR

Rhoddir nifer y marciau mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

Ni roddir tystysgrif i ymgeisydd a geir yn ymddwyn yn annheg yn ystod yr arholiad.

1. Mae'r diagram yn dangos rhai cyllyll a rhai ffyrc.



(a) Sawl fforc sydd yno?

Ateb: .....

(b) Faint yn fwy o gyllyll fydd eu hangen fel bo nifer y cyllyll yr un faint a nifer y ffyrc?

Ateb: .....

[2]

2. Ysgrifennwch i lawr bob **odrif** sydd rhwng 16 a 24.

.....  
.....

[1]

3. Cyfrifwch

(a)  $429 + 376$ ,

.....  
.....  
.....

[1]

(b)  $3224 \div 8$ .

.....  
.....  
.....

[1]

4. Rhowch gylch o amgylch yr hyd **hiraf** o'r hydroedd canlynol.

5.31 m


543 cm

66.0 cm

5.47 m

[1]

5. Tywyllwch  $\frac{3}{4}$  o'r diagram hwn:



[1]

6. Mae £30 yn cael eu rhannu rhwng Ann a Brian fel bo Ann yn cael **5 gwaith gymaint** â Brian.

Faint mae Ann yn ei dderbyn?

.....

.....

[1]

7. Ar ddiwrnod penodol roedd y tymheredd yng Nghaerdydd yn  $7^{\circ}\text{C}$  a'r tymheredd yn Efrog (*York*) yn  $-4^{\circ}\text{C}$ . Cwblhewch y gosodiad canlynol.

Roedd Caerdydd .....  $^{\circ}\text{C}$  yn gynhesach nag Efrog.

[1]

8. Mae hyd rhoden denau o bren yn **1m**. Mae Pedr yn torri darnau o hyd (*length*) **12 cm** yr un allan o'r rhoden.

(a) Beth yw'r nifer mwyaf o ddarnau y gall Pedr eu torri o'r rhoden?

.....  
Ateb: .....

[1]

(b) Faint fydd hyd y darn o'r rhoden fydd yn weddill?

.....  
Ateb: .....

[1]

9. Mae ysgol yn ennill £800 mewn cystadleuaeth. Mae'r ysgol yn penderfynu rhoi 25% o'r swm a enillwyd i elusen, ac yn rhoi'r gweddill i brynu offer i'r llyfrgell.

(a) Ysgrifennwch y **swm** a roddwyd i elusen.

.....  
.....  
[1]

(b) Ysgrifennwch y **canran (%)** o'r swm a enillwyd ac a roddwyd i'r llyfrgell.

.....  
.....  
[1]

10. Cwblhewch y bil canlynol.

3 phwys o bys yn costio 47c y pwys.      £ ..... . .....

5 pwys o ffafon yn costio £1.07 y pwys.      £ ..... . .....

Cyfanswm      £ ..... . .....

[2]

11. Ysgrifennwch y rhif nesaf yn y patrwm rhif hwn:

19,      15,      11,      7,      .....

Ateb: .....

Sut cawsoch chi'r rhif hwn?

.....  
.....

[2]

12. O ddydd Llun i ddydd Gwener, mae bachgen papur newydd yn ennill £4.50 y dydd. Ar ddydd Sadwrn mae'n ennill £5.50 ac nid yw'n gweithio ar ddydd Sul.

Gweithiwch allan y cyfanswm mae'n ei ennill mewn wythnos.

.....  
.....  
.....

[2]

13. Mae perchennog siop yn gweithio allan y swm sy'n rhaid iddo ei dalu mewn TAW (VAT).

Mae'r ateb (mewn £oedd) ar ei gyfrifiannell yn dangos

1249.84702

Ysgrifennwch y swm hwn o arian

- (a) i'r geiniog agosaf,

Ateb: .....


[1]

- (b) i'r £ agosaf.

Ateb: .....

[1]

14. Dyma gardiau rhif.



(a) Ysgrifennwch y rhif mwyaf y gallwch chi ei wneud gydag unrhyw **dri** (3) o'r cardiau hyn.

.....	.....	.....

[1]



- (b) Trwy ddefnyddio **tri (3)** o'r cardiau hyn ysgrifennwch y rhif sydd **ddeg gwaith yn fwy** na **dau ddeg saith (27)**.

.....	.....	.....


[1]

- (c) Ysgrifennwch y rhif **lleiaf** y gallwch chi ei wneud gyda **thri (3)** o'r cardiau hyn. Mae **un (1)** ohonynt wedi ei osod i chi.

<b>2</b>		
	.....	.....

[1]

15. Dyma beiriant rhif:



Enghraifft: Pan fo'r **RHIF I MEWN** yn 7, y **RHIF ALLAN** yw 6.

Nawr atebwch y cwestiynau canlynol.

(a) Pan fo'r **RHIF I MEWN** yn 10, beth yw'r **RHIF ALLAN**?

.....

.....

[1]

(b) Pan fo'r **RHIF I MEWN** yn 0, beth yw'r **RHIF ALLAN**?

.....

.....

[1]


(c) Pan fo'r **RHIF ALLAN** yn  $-4$ , beth yw'r **RHIF I MEWN**?

.....

.....

[1]

16. Edrychwch ar y diagram hwn:




(a) Rhowch y rhif 6 yn y blwch sydd **ddau flwch yn uwch** na'r 4.

(b) Rhowch y llythyren Q yn y blwch sydd yn union **i'r dde** o'r llythyren P.

[2]

17. Mae'r onglau  $x$ ,  $y$  a  $z$  yn cael eu dangos yn y diagramau hyn.



Cwblhewch y gosodiadau canlynol.

- (i) Yr ongl **lem** yw ongl .....
- (ii) Yr ongl **aflem** yw ongl .....


[2]

18. Mae'r diagramau hyn yn dangos graddfeydd ar ddarnau o wahanol linyddau mesur.

Ym mhob diagram mae'r saeth yn pwyntio at hyd gwahanol bethau.

Ysgrifennwch yr hyd sy'n cael ei ddangos ym mhob diagram. **Rhaid cynnwys yr unedau** sy'n cael eu defnyddio ym mhob ateb.


(a)



Ateb: .....

[1]


(b)




Ateb: .....

[1]

19. Mae'r diagram yn dangos parcel sydd ar siâp ciwboid.



Mae llinyn (sydd wedi'i ddangos fel hyn  yn y diagram) yn cael ei ddefnyddio i rwymo'r parcel. Mae angen 4 cm ychwanegol o linyn ar gyfer gwneud y cwlwm.

Faint yw hyd yr holl linyn fydd ei angen?

.....

.....


.....

.....

[2]


20. Mae **cymesuredd drych** gan rai o'r siapiau canlynol. Rhwch **dic** (✓) o dan bob siâp sydd â chymesuredd drych ac **yna tynnwch y llinell ddrych** ar y siâp.

(a)




.....

(b)




.....

(c)



.....


(ch)



.....

[3]

21. Mae gan llawr  $ABCD$  ystafell y mesuriadau canlynol.



Mae'r llawr yn cael ei orchuddio (*covered*) â theils carped sgwâr. Mae pob teilsen yn mesur 30 cm wrth 30 cm. Mae'n bosibl gosod deg (10) o deils carped ar hyd ymyl  $AB$  y llawr.

(a) Gweithiwch allan faint yw hyd ymyl  $AB$  y llawr.

.....

.....

[1]

(b) Sawl teilsen mae'n bosibl ei gosod ar hyd ymyl  $AD$  y llawr?

.....

.....

[2]

(c) Sawl teilsen sydd ei hangen i orchuddio'r llawr i gyd?

.....

.....

[1]



22. Dyma ran o amserlen fysiau. Mae'r bws yn cychwyn wrth Yr Ysbyty ac yn mynd ar hyd Stryd Las, Rhodfa Werdd, Ffordd Oren a Lôn Goch cyn cyrraedd pen ei daith wrth yr Orsaf Drenau.

Yr Ysbyty	07.13	07.56	08.21	09.26
Stryd Las	07.16	07.59	08.24	09.29
Rhodfa Werdd	07.22	08.05	08.30	09.35
Ffordd Oren	07.25	08.08	08.33	09.38
Lôn Goch	07.31	08.14	08.39	09.44
Gorsaf Drenau	07.46	08.31	09.01	10.01

- (a) Mae Alan yn teithio o'r Ysbyty i Lôn Goch. Os yw'n dal y bws sy'n gadael Yr Ysbyty am 07.56, am faint o'r gloch dylai gyrraedd Lôn Goch?

Ateb: .....

[1]

Pa mor hir gymrodd y daith iddo fe?

Ateb: .....

[1]

- (b) Mae Mari'n gweithio yn yr Ysbyty. Mae'n rhaid iddi hi ddal trê'n. Mae'r trê'n yn gadael yr Orsaf Drenau am 09.10.

Ysgrifennwch amser cychwyn y bws olaf o'r Ysbyty fydd yn ei gwneud hi'n bosibl i Mari ddal ei thrê'n.

Ateb: .....

[1]

23. Pan fo darn o arian yn cael ei daflu, gall y canlyniad fod *naill ai pen (P) neu cynffon (C)*.

Taflodd Sian ddarn o arian **dair (3)** gwaith yn olynol a chofnododd ei chanlyniadau.

Dyma **un (1)** o'r canlyniadau fyddai'n bosibl:

**PCP**

Gwnewch restr o'r **holl** ganlyniadau gwahanol fyddai'n bosibl.

.....

.....

[2]

24. Ysgrifennwch a yw'r pethau hyn

**yn mynd** i ddigwydd                    neu  
**yn gallu** digwydd                    neu  
**ddim** yn mynd i ddigwydd.

(a) Bydd Tachwedd 1af 2007 yn dod o flaen 17eg Medi 2007.

Ateb: .....

[1]


(b) Bydd yn bwrw glaw yfory yn rhywle yn y byd.

Ateb: .....


[1]

25.

**SET A**



**SET B**



(a) Ym mha set fydddech chi'n gosod y rhif 10?

Ateb: **SET** .....

[1]


(b) Eglurwch pam.

.....  
.....  
.....

[1]

26. Gofynwyd i ddisgyblion Dosbarth 3Z i enwi gwneuthuriad (*make*) y car (os o gwbl) roedd eu rhieni yn ei ddefnyddio. Rhoddir rhai o'r atebion yn y tabl isod a rhoddir y lleill yn y siart bar isod.

CAR	Ford	Renault	Peugeot	BMW	Fiat	Dim Car
Nifer y disgyblion	.....	7	9	2	.....	3



- (a) (i) Defnyddiwch y siart bar i gwblhau'r tabl.  
(ii) Defnyddiwch y tabl i gwblhau'r siart bar.

[4]


- (b) Sawl disgybl oedd yn Nosbarth 3Z?

Ateb: .....

[1]

**Trosodd.**

27.



Mae'r graff sydd ar y dudalen gyferbyn yn dangos taith gyda'r trêen o dref A i dref B ac yna ymlaen i dref C. Defnyddiwch y graff i ddarganfod

(a) y pellter rhwng tref C a thref A,

Ateb: ..... km

[1]

(b) yr amser y mae'r trêen yn cyrraedd tref C,

Answer: .....

[1]

(c) am faint o amser y mae'r trêen yn aros yn nhref B,

Ateb: .....

[1]

(ch) faint o amser y mae'r trêen yn ei gymryd i fynd o dref B i dref C.

Ateb: .....

[1]

28.



Coco



Lisa



Mari



Tom



Siwan



Henri

Rhowch enwau'r bobl yn y lleoedd cywir yn y tabl isod.  
Mae un wedi'i wneud i chi.

	Mae'n dal ambarel	Nid yw'n dal ambarel
Mae'n cario bag	Henri	
Nid yw'n cario bag		